

Gwers 21

Solomon



Cyfres Stori Duw

1 Brenhinoedd 11:1–13, 1 Brenhinoedd 10:9 • •

Nod:

Sylwi nad Solomon, er ei ddoethineb, yw'r un sy'n dod â'r gorffwys disgwylidig, a gollwyd yng ngardd Eden.

Adnodau:

1 Brenhinoedd 11:1–13, a 1 Brenhinoedd 10:9

Cefndir:

Mae angen llawer o wybodaeth gefndirol i ddeall hanes Solomon yn ei gyd-destun a'i oblygiadau i bobl Dduw – sef yr Israeliaid. Beth am rannu'r dosbarth yn ddau grŵp a rhoi Atodiad 9 iddynt? Esboniwch eich bod am wneud rhaglen newyddion am fywyd Solomon, a bydd y tri grŵp yn edrych ar wahanol agweddau ar ei fywyd. Gofynnwch i un grŵp fod yng ngofal y newyddion am Dafydd, tad Solomon, ac un grŵp i fod yng ngofal y bwletin newyddion am Solomon. Rhowch ryddid iddynt drefnu'r bwletin gyda'u syniadau eu hunain, ond gwnewch yn siŵr eu bod yn cynnwys y pwyntiau o atodiad 9, gan fod y wybodaeth am fod yn angenrheidiol i osod y cyd-destun i'r grŵp arall.

Gweithgaredd:

Dirnadaeth

Fe fydd angen 2 gas gobennydd, wedi'u cau â llinyn ac wedi'u llenwi â 10–20 o eitemau gwahanol. Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm, a rhoi dwy funud iddynt i deimlo'r cas gobennydd a cheisio dyfalu beth yw'r eitemau sydd ynddynt. Wedi'r ddau funud,

cymerwch y 2 gas gobennydd oddi wrth y timau a gofyn iddyn wneud rhestr o be maent yn credu oedd ynddynt. Yna, fesul un, tynnwch yr eitemau o'r cas gobennydd a rhoi pwynt am bob ateb cywir ar eu rhestr.

Canmolwch y tîm buddugol ar eu gwaith o ddirnad beth oedd yr eitemau. Esboniwch fod y Beibl yn trafod dirnad rhwng da a drwg, cywir ac anghywir fel rhan o fywyd pob Cristion.

Darllen yr hanes:

Darllenwch chi 1 Brenhinoedd 10:9 i'r dosbarth a dangos atodiad 10 iddynt. Brenhines Sheba sy'n siarad yn y fan hyn, ac mae'n enghraifft wych o sut mae cynllun Duw ar gyfer Israel fod i weithio: perthynas Duw gyda'i bobl, drwy'r brenin, yn dod â bendith iddynt hwy a chenhedloedd eraill, yn ogystal â'u denu at Dduw.

Ond fe welwch nad fel hyn mae teyrnasiad Solomon yn gorffen.

Rhannwch y darn (1 Brenhinoedd 11:1–13) yn gyfartal rhwng y dosbarth, a gofyn iddynt ei ddarllen allan.

Cwestiynau i'w trafod:

1. Sut wnaeth gwragedd Solomon ei arwain oddi wrth Dduw? (ei hudo i ddilyn duwiau estron.)

2. Beth oedd y gwahaniaeth rhwng Solomon a'i dad Dafydd? (nid oedd ei galon yn llwyr gyda'r Arglwydd.)

3. Wnaeth Solomon gadw gorchmynion Duw? (Na. Fe ddewisodd blesio pobl yn hytrach na Duw.)

4. Pa un o'r 10 gorchymyn a dorrodd Solomon? (Cliw: Exodus 20. Ateb Exodus 20:3 – y gorchymyn cyntaf)

5. Beth gredwch chi yw ystyr y gorchymyn hwn? (Trafodwch. Gwnewch restr o'r math o bethau a allai ddod o flaen Duw yn ein bywydau.)

6. Beth oedd canlyniad anufudd–dod Solomon? (Fe ddwedodd Duw y byddai'n cymryd y deyrnas oddi arno.)

7. Sut gredwch chi y mae Duw'n teimlo pan ydym ni'n anufuddhau iddo / torri ei orchmynion?

Gweithgaredd:

Y brenin doeth

Roedd pobl yn teithio o wledydd eraill hyd yn oed i glywed doethineb Solomon ac i ofyn iddo ddatrys eu problemau.

Fe fydd angen het ar gyfer y gweithgaredd hwn ac wrth i chi ofyn cwestiwn i un o'r bobl ifanc, gofynnwch iddynt wisgo'r het fel coron.

Esboniwch mai hwy yw'r brenin Solomon, a'ch bod angen eu doethineb. Gofynnwch i'r bobl ifanc ateb y problemau isod. Gallwch ofyn iddynt fesul un, neu os oes rhai yn swil, gallwch eu gosod mewn parau.

Dydw i byth yn cael bod yng ngofal y 'remôt

contrôl' gartref, beth alla i wneud i gael dewis pa sianel i wylio?

Rwy'n cael trafferth gwneud ffrindiau yn fy ysgol newydd, oes gennych chi gyngor?

Mae fy ffrindiau yn ddylanwad drwg arna' i ac yn aml rydym yn mynd i drwbwl yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Beth ddylwn i wneud?

Mae fy mrawd mawr yn gwneud hwyl am fy mhen gan fy mod i'n mynd i'r capel. A ddylwn i roi'r gorau i ddod? Pam?

Efallai y gallwch chi ofyn rhai cwestiynau y teimlwch sy'n berthnasol i'ch dosbarth chi, gan mai chi sy'n eu hadnabod orau. Yna rhowch gyfle i'r bobl ifanc ofyn cwestiynau i'w gilydd.

Amser Addoli:

Mae pawb yn gwneud camgymeriadau weithiau. Rydym ni i gyd o bryd i'w gilydd yn torri gorchmynion Duw, yn anufudd iddo ac yn pechu. Fe wnaeth Solomon ddarganfod, fod yna ganlyniadau i bechod, ac mae hynny'n wir i ni hefyd. Ond y newyddion da yw fod Iesu wedi delio â chanlyniad ein pechod ni ar y groes.

Gofynnwch i'r bobl ifanc weddio, i ddiolch i Iesu am ei aberth trosom a gofyn i Dduw am ddoethineb a nerth i'w roi Ef yn gyntaf a pheidio â gadael i ddim yn ein bywyd ddod o'i flaen ef. Amen